**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024**

**Pwynt Craffu Technegol 1:** Nodir y pwynt hwn. Byddwn yn sicrhau y caiff y Rheoliadau eu diwygio cyn eu gwneud i fynd i'r afael â hyn. Bydd y diffiniad, yn syml, yn cyfeirio at y diffiniadau presennol sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

**Pwynt Craffu Technegol 2:** Rydym yn ystyried bod dealltwriaeth eang ym maes cyfraith cyflogaeth o'r gwahaniaeth sylfaenol rhwng gweithwyr sy'n gweithio o dan gontract cyflogaeth a gweithwyr sy'n gweithio o dan gontract ar gyfer gwasanaethau. Gan hynny ni roddir eglurhad pellach o'r termau hyn yn y Rheoliadau hyn. Ni chynigir unrhyw ddiwygiadau.

**Pwynt Craffu Technegol 3:** Er bod y diffiniad yn cyfeirio at 2 dystysgrif, mae hyn yn annhebygol o fod yn broblem yn ymarferol oherwydd y bydd yn glir pa fath o dystysgrif y dylid gwneud cais amdani. Er bod cyfeiriad at 2 fath o dystysgrifau gallai fod angen y naill neu'r llall yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Efallai y bydd newid bach i'r geiriad o gymorth i'r darllenydd, ond nid yw hwn yn welliant brys sy'n ofynnol i'r Rheoliadau a bydd yn cael ei adolygu ar y cyfle cyntaf i'w ddiwygio.

**Pwynt Craffu Technegol 4:** Er y defnyddir y gair “unigolyn” nifer o weithiau mewn cyd-destunau gwahanol yn y Rheoliadau, rydym yn fodlon ei bod yn ddigon clir pan “noda’r cyd-destun” nad yw'r gair i'w ddehongli yn unol â'r diffiniad o “unigolyn” yn rheoliad 1(3). Gan hynny, ni chynigir unrhyw newidiadau.

**Pwynt Craffu Technegol 5:** Rydym yn fodlon bod cyfraith gyffredin sefydledig yn ymdrin â phan fydd barn plentyn i gael blaenoriaeth dros farn rhiant. Nid oeddem yn ystyried bod angen esboniad pellach yn y Rheoliadau hyn. Gan hynny, ni chynigir unrhyw newidiadau.

**Pwynt Craffu Technegol 6:** Bydd ystyr y term “cyflenwadau” yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar yr amgylchiadau a'r math o ofal a roddir. Credwn y bydd y gair yn cael ei ddehongli fel un sydd â'i ystyr arferol yng nghyd-destun gofal a chymorth, felly ni roddwyd unrhyw esboniad pellach. Mae hyn yn unol â'r rheoliadau eraill sy'n defnyddio'r ymadrodd hwn. Gan hynny, ni chynigir unrhyw newidiadau.

**Pwynt Craffu Technegol 7:** Nodir y pwynt hwn. Byddwn yn sicrhau y caiff y Rheoliadau eu diwygio cyn eu gwneud i fynd i'r afael â hyn.

**Pwynt Craffu Technegol 8:** Nodir y pwynt hwn. Byddwn yn sicrhau y caiff y Rheoliadau eu diwygio cyn eu gwneud i fynd i'r afael â hyn.

**Pwynt Craffu Technegol 9:** Mae'r raddfa yn cael ei chydnabod yn gyffredin o fewn y maes, yn ogystal â'r term “niwed pwyso nad oes modd ei osod ar unrhyw gam”. Mae hyn yn unol â'r rheoliadau eraill sy'n defnyddio'r ymadrodd hwn. Gan hynny, ni chynigir unrhyw newidiadau.

*Cywiriadau drafftio technegol i’w gwneud cyn gwneud y Rheoliadau*

| **CYWIRIADAU A WNAED I’R TESTUN CYMRAEG CYN GWNEUD** | **CYWIRIADAU A WNAED I’R TESTUN SAESNEG CYN GWNEUD** |
|---|---|
| **Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024** | **The Special School Residential Services (Service Providers and Responsible Individuals) (Wales) Regulations 2024** |
| Mae “mae i “gofal a chymorth” (“*care and support*”) a’r termau unigol “gofal” (“*care*”) a “cymorth” (“*support*”) yr un ystyr ag yn adran 3 o’r Ddeddf;” wedi ei fewnosod yn y diffiniadau. | Mae ““care and support” (“*gofal a chymorth*”) and the individual terms “care” (“*gofal*”) and “support” (“*cymorth*”) have the same meaning as in section 3 of the Act;” wedi ei fewnosod yn y diffiniadau. |
| Yn rheoliad 79(3)(b) rhoddir “fel pe bai’r canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff (a)” yn lle “fel pe bai wedi ei fewnosod ar ôl (a)”. | Yn rheoliad 79(3)(b) rhoddir “after paragraph (a) there were inserted” yn lle “it were inserted after (a)””. |
| Yn rheoliad 82(a) rhoddir “y diffiniad o “y Rheoliadau Gwasanaethau Maethu”” yn lle ““ystyr “y Rheoliadau Gwasanaethau Maethu” (“*the Adoption Services Regulations*”) yw Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019;”. | Yn rheoliad 82(a) rhoddir “the definition of “the Fostering Services Regulations”” yn lle ““the Fostering Services Regulations” (“*y Rheoliadau Gwasanaethau Maethu*”) means the Regulated Fostering Services (Service Providers and Responsible Individuals) (Wales) Regulations 2019;”. |
| Bydd mân faterion fel fformatio, mân newidiadau i’r nodyn esboniadol a’r troednodiadau a chywiro gwallau teipograffyddol hefyd yn cael eu cywiro cyn gwneud. | |